
Is-Ddeddfau

Cardiff University Students' Union
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd

CYNNWYS

1.	Aelodaeth.....	2
2.	Cwynion a Disgyblu	4
3.	Refferenda	5
4.	Cyfarfodydd Myfyrwyr sy'n Aelodau	6
5.	Cyngor y Myfyrwyr.....	7
6.	Pwyllgor Craffu.....	9
7.	Ymddiriedolwyr Sabothol	11
8.	Swyddogion Ymgyrchoedd	13
9.	Ymddiswyddiadau a Diswyddiadau Ymddiriedolwyr Sabothol.....	14
10.	Cynrychiolaeth Academiaidd	15
11.	Chwaraeon	16
12.	Clybiau Chwaraeon	16
13.	Gemau Mewn Golegol (IMG).....	18
14.	Cymdeithasau	20
15.	Cyfryngau Myfyrwyr	22
16.	Llyfr Polisi	24
17.	Diwygiadau i'r Is-Ddeddfau.....	25
18.	Dwyieithrwydd.....	26
19.	Protocol Staff a Myfyrwyr	27
20.	Is-Bwyllgorau'r Bwrdd.....	31

1. Aelodaeth

1.1 Bydd Aelodaeth Myfyriwr yn agored i holl Fyfyrrwyr y Brifysgol fel y'u diffinnir ym mharagraff 11 Statud 1 y Brifysgol.

1.2 Bydd 3 dosbarth o Aelodaeth o'r Undeb heb fod yn Fyfyriwr:

- (a) Er Anrhydedd;
- (b) Oes; a
- (c) Cysylltiol.

1.2.1 Bydd aelodaeth Er Anrhydedd yn agored i unigolion nodedig yn amodol ar gymeradwyaeth Cyngor y Myfyrrwyr.

1.2.2 Bydd aelodaeth Oes yn agored i bob unigolyn sydd ag aelodaeth Er Anrhydedd neu aelodaeth Oes o Gymdeithas Undeb Myfyrrwyr Coleg y Brifysgol Caerdydd neu Undeb Myfyrrwyr Athrofa Gwyddoniaeth a Thechnoleg Prifysgol Cymru neu Glwb Myfyrrwyr Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru yr ystyrir bod ganddynt Aelodaeth Er Anrhydedd neu Aelodaeth Oes o Undeb Myfyrrwyr Prifysgol Caerdydd pan delir y ffi aelodaeth flynyddol briodol.

1.2.3 Bydd aelodaeth Gysylltiol yn agored i unrhyw unigolyn arall gyda rheswm dilys wrth wneud cais i'r Undeb.

1.2.4 Bydd pob aelod o staff Undeb Myfyrrwyr Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Caerdydd yn meddu ar Aelodaeth Gysylltiol yn awtomatig.

1.3 Breintiau Aelodaeth

1.3.1 Bydd gan Fyfyrrwyr sy'n Aelodau yr hawl i:

- (a) fynychu, siarad a phleidleisio yng Nghyfarfodydd y Myfyrrwyr sy'n Aelodau;
- (b) ymgeisio a phleidleisio yn etholiadau'r Undeb;
- (c) defnyddio holl gyfleusterau adloniant a gwasanaethau'r Undeb;
- (d) cyflwyno gwesteion i adeilad yr Undeb; ac
- (e) ymgeisio am a defnyddio aelodaeth myfyriwr o grwpiau gweithgareddau myfyrrwyr.

1.3.2 Bydd gan Aelodau Er Anrhydedd ac Aelodau Oes yr hawl i:

- (a) ddefnyddio holl gyfleusterau adloniant yr Undeb;
- (b) ymgeisio am aelodaeth gysylltiol o grwpiau gweithgareddau myfyrrwyr; a
- (c) cyflwyno gwesteion i adeilad yr Undeb.

1.3.3 Bydd gan Aelodau Cysylltiol yr hawl i:

- (a) ymgeisio am aelodaeth gysylltiol o grwpiau gweithgareddau myfyrrwyr; a
- (b) ddefnyddio holl gyfleusterau cymdeithasu yr Undeb.

1.4 Cyfrifoldebau Aelodaeth

1.4.1 Bydd pob ffurf ar aelodaeth yn amodol ar gadw at bolisiau, Cod Ymddygiad a thelerau aelodaeth yr Undeb.

1.5 Diddymu Aelodaeth

- 1.5.1 Gellir atal unrhyw freintiau Aelodaeth Myfyriwr neu'r cyfan ohonynt am dorri polisïau, Cod Ymddygiad, neu delerau aelodaeth yr Undeb neu unrhyw achos fel y'i diffinnir gan yr Ymddiriedolwyr, fodd bynnag, ni fydd aelodaeth ynddo'i hun yn cael ei atal.
- 1.5.2 Gellir diddymu neu atal ffurfiau aelodaeth Er Anrhydedd, Oes a Chysylltiol am dorri polisïau, Cod Ymddygiad, neu delerau aelodaeth yr Undeb neu unrhyw achos fel y'i diffinir gan yr Ymddiriedolwyr.

1.6 Myfyrwyr sy'n ymeithrio rhag bod yn aelodau

- 1.6.1 Bydd gan bob Myfyriwr yr hawl i:
 - (a) beidio â bod yn aelod o'r Undeb; a
 - (b) Nodi nad yw'n dymuno cael ei gynrychioli/chynrychioli gan gorff cynrychioladol.
- 1.6.2 Ni fydd unrhyw Fyfyriwr sydd wedi ymarfer ei hawl i beidio â bod yn aelod o'r Undeb, neu i beidio â chael ei gynrychioli/chynrychioli gan gorff cynrychioladol nad yw'n gymdeithas, yn cael ei anfanteisio'n annheg, o ran darpariaeth gwasanaethau'r Undeb neu fel arall, oherwydd ei fod/ei bod wedi gwneud hynny.
- 1.6.3 Ni chaniateir i unrhyw fyfyriwr sydd wedi ymarfer ei hawl i ymeithrio rhag aelodaeth o'r Undeb ymwneud â swyddogaethau democrataidd yr Undeb.
- 1.6.4 Gall aelod ddiddymu ei aelodaeth/ei haelodaeth drwy hysbysiad ysgrifenedig i'r Llywydd.

2. Cwynion a Disgyblu

2.1 Cwynion

2.1.1 Mewn achos pan fydd unrhyw Fyfyriwr sy'n Aelod neu unrhyw Aelod nad yw'n Fyfyriwr o'r farn eu bod wedi eu trin, eu cynrychioli neu eu pardduo yn annheg gan yr Undeb neu gan unrhyw aelod o'i staff (gan gynnwys y Swyddogion sy'n Ymddiriedolwyr) neu gan unrhyw Fyfyriwr sy'n Aelod neu Aelod o'r Undeb nad yw'n Fyfyriwr, bydd yr hawl ganddynt i gyflwyno cwyn. Mae Atodiad 1 yr Is-Ddeddfau yn amlinellu'r broses ar gyfer gwneud cwynion yn erbyn yr Undeb neu unrhyw aelod o'i staff (gan gynnwys y Swyddogion sy'n Ymddiriedolwyr) neu unrhyw Fyfyriwr sy'n Aelod neu Aelod Cysylltiol, Oes neu Er Anrhydedd o'r Undeb.

2.2 Disgyblu

2.2.1 Ni ddylai unrhyw aelod neu grŵp cysylltiol ymddwyn mewn modd sy'n niweidiol i fywyd cymdeithasol, lles neu enw da yr Undeb neu ei aelodau. Mae o ran ymddygiad wedi'u hamlinellu yn y Cod Ymddygiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yr Is-Ddeddfau.

2.2.2 Mae pob Fyfyriwr sy'n Aelod a holl Aelodau'r Undeb nad ydynt yn Fyfyrrwyr yn ddarostyngedig i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, Is-Ddeddfau a Pholisïau'r Undeb.

2.2.3 Mae'r Undeb yn cadw'r hawl i gymryd camau disgyblu yn unol â'r weithdrefn disgyblu a gynhwysir yn Atodiad 1 yr Is-Ddeddfau yn erbyn unrhyw Fyfyriwr sy'n Aelod, Aelod nad yw'n Fyfyriwr neu glwb neu gymdeithas i'r Undeb sy'n gweithredu'n groes i Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, Is-Ddeddfau, neu Bolisïau'r Undeb.

3. Refferenda

- 3.1 Caiff refferendwm, a sbardunir yn unol ag Erthygl 18, ei gynnal yn unol â'r gweithdrefnau etholiadau a phleidleisio a nodir yn Atodiad 2 yr Is-Ddeddfau.
- 3.2 Penodir y Swyddog Canlyniadau yn unol ag Atodiad 2 yr Is-Ddeddfau a bydd yn meddu ar yr awdurdod a nodir yn Atodiad 2 yr Is-Ddeddfau. Bydd y Swyddog Canlyniadau yn cadarnhau'r cwestiwn a osodir.
- 3.3 Rhoddir rhybudd o Refferendwm, gan gynnwys y cwestiwn, dyddiad y refferendwm a ble y gall Myfyrwyr sy'n Aelodau ganfod gwybodaeth ynglŷn â'r achosion o blaid ac yn erbyn.
- 3.4 Bydd o leiaf bum niwrnod o rybudd rhwng cyhoeddi hysbysiad o'r refferendwm a chynnal y refferendwm.
- 3.5 Bydd disgwyliadau o ran ymddygiad a rheoliadau ynglŷn â gweithgareddau ymgyrchu yn cael eu gosod gan y Swyddog Canlyniadau.
- 3.6 Bydd o leiaf ddau ddiwrnod olynol o bleidleisio.
- 3.7 Rhoddir mesurau ar waith gan y Swyddog Canlyniadau er mwyn sicrhau mai unwaith yn unig y gall Myfyrwyr sy'n Aelodau bleidleisio.
- 3.8 Cynigydd y cynnig yn y refferendwm fydd yn gyfrifol am gyhoeddusrwydd wrth gyflwyno'r cynnig i Fyfyrwyr sy'n Aelodau.
- 3.9 Bydd cwestiwn y refferendwm yn cael ei eirio mewn modd sy'n galw am ateb cadarnhaol neu negyddol.
- 3.10 Bydd y Cyfrif yn dechrau pan fydd yn rhesymol bosibl gwneud hynny wedi i'r Pleidleisio ddod i ben. Caniateir i'r bobl ganlynol arsylwi'r Cyfrif:
 - (a) cynrychiolwyr yr ymgyrchoedd O Blaid ac Yn Erbyn;
 - (b) y Swyddog Canlyniadau a'r Dirprwy Swyddogion Etholiadau; ac
 - (c) unrhyw bobl eraill fel y barno'r Swyddog Canlyniadau.
- 3.11 Bydd angen i'r Swyddog Canlyniadau gyhoeddi'r canlyniad i'r holl Fyfyrwyr sy'n Aelodau pan ddaw'r cyfle rhesymol cyntaf i wneud hynny.
- 3.12 Os bydd pleidlais gyfartal, bernir bod y cynnig wedi methu.

4. Cyfarfodydd Myfyrwyr sy'n Aelodau

- 4.1 Caiff Cyfarfod Myfyrwyr sy'n Aelodau, gan gynnwys Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Myfyrwyr sy'n Aelodau, ei gynnal yn unol â'r gweithdrefnau a nodir yn Atodiad 3.
- 4.2 Bydd o leiaf bum niwrnod o rybudd rhwng cyhoeddi hysbysiad o'r Cyfarfod Myfyrwyr sy'n Aelodau a'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno eitemau ar gyfer yr agenda.
- 4.3 Bydd yr agenda ar gyfer pob Cyfarfod Myfyrwyr sy'n Aelodau yn cael ei gyhoeddi a'i arddangos o leiaf bedwar diwrnod cyn dechrau'r cyfarfod. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys y broses ar gyfer cyflwyno gwelliannau.
- 4.4 Y cworwm ar gyfer Cyfarfodydd Myfyrwyr sy'n Aelodau fydd 500 o Fyfyrwyr sy'n Aelodau a bydd yn gymwys i wella, derbyn neu wrthod unrhyw fusnes a gyflwynwyd.
- 4.5 Rhaid i unrhyw welliannau i fusnes a gyflwynwyd gael eu cyflwyno i'r Cadeirydd o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod. Rhaid i welliannau fod yn berthnasol ac nid yn fodd i lesteirio bwriad y busnes dan sylw, fel y barno'r Cadeirydd. Bydd unrhyw welliannau yn cael eu cyhoeddi a'u harddangos o leiaf 24 awr cyn dechrau'r cyfarfod.
- 4.6 Os bydd cyfarfod heb gworwm neu'n mynd islaw'r cworwm, ni chynhelir unrhyw fusnes ac eithrio gohirio'r cyfarfod. Rhoddir o leiaf dri diwrnod o rybudd o ailgynnull y cyfarfod a ohiriwyd. Yn y cyfarfod a ailgynnullir, dim ond y busnes heb ei gwblhau o'r cyfarfod gwreiddiol a gaiff ei gynnal. Os bydd cyfarfod a ailgynnullwyd heb gworwm neu'n mynd islaw'r cworwm, bydd y busnes anorffenedig (ac eithrio cynigion ar gyfer gwelliannau i'r Memorandwm a'r Erthyglau) yn cael eu cyfeirio i Gyngor y Myfyrwyr a bydd penderfyniad y Cyngor ar y busnes hwnnw yn derfynol.
- 4.7 Gellir sbarduno Cyfarfod Aelodau drwy:
 - (i) Ddeiseb Ddiogel o ddim llai na 500 o Fyfyrwyr sy'n Aelodau
 - (ii) Cynnig wedi'i basio o fwyafrif syml gan Gyngor y Myfyrwyr;
 - (iii) Penderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr.
- 4.8 Bydd Cyfarfod Aelodau yn cael ei drefnu gan yr Undeb cyn gynted â phosibl ar ôl y sbardun, ond heb fod y tu hwnt i 21 diwrnod

5. Cyngor y Myfyrwyr

5.1 Bydd Cyngor y Myfyrwyr, at ddibenion cyhoeddusrwydd, yn cael ei adnabod dan yr enw Senedd y Myfyrwyr yn unol ag Erthygl 49.1 nes bydd yr Is-Ddeddf hon yn cael ei newid. Er cysondeb, defnyddir y term Cyngor y Myfyrwyr yn yr Is-Ddeddfau.

5.2 Cyfansoddiad

5.2.1 Aelodau Cyngor y Myfyrwyr fydd:

- a) unrhyw ddau o Ymddiriedolwyr Sabothol yr Undeb;
- b) pob Swyddog Ymgyrch. Bydd hawl gan unrhyw Swyddog Ymgyrch nad yw'n gallu mynychu cyfarfod o Gyngor y Myfyrwyr i benodi dirprwy o'u cymdeithas i fynychu yn eu lle, a bydd y dirprwy'n dwyn eu hawl i bleidleisio;
- c) 25 o Fyfyrwyr sy'n Aelodau, a etholir trwy bleidlais campws cyfan, gyda 12 lle wedi'u neilltuo ar gyfer menywod yn ôl eu diffiniad eu hunain;
- d) deg o Fyfyrwyr sy'n Aelodau sy'n Gynrychiolwyr Academaidd etholedig, a ddetholir ar hap fesul cyfarfod; ac
- e) un myfyriwr israddedig, un myfyriwr ôl-raddedig a addysgir, ac un myfyriwr ymchwil ôl-raddedig a ddetholir fesul coleg fesul cyfarfod

5.2.2 Bydd y Prif Weithredwr neu ei (h)enwebai yn bresennol, ond ni fydd yn aelod.

5.3 Etholir Cadeirydd Cyngor y Myfyrwyr trwy bleidlais gyfrinachol gan ac o blith aelodau Cyngor y Myfyrwyr. Tymor Cadeirydd Cyngor y Myfyrwyr fydd y cyfnod o 1af Gorffennaf hyd at 30ain Mehefin y flwyddyn ganlynol. Ni fydd modd i Ymddiriedolwr Sabothol nac unrhyw un o'r deg Cynrychiolydd Academaidd a ddetholir ar hap i fynychu cyfarfodydd Cyngor y Myfyrwyr fod yn Gadeirydd. Rhag unrhyw amheuaeth, cynhelir yr etholiad gan ddefnyddio system etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel y'i diffinnir gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

5.4 Etholir Is-Gadeirydd Cyngor y Myfyrwyr trwy bleidlais gyfrinachol gan ac o blith aelodau Cyngor y Myfyrwyr yng nghyfarfod cyntaf y Sesiwn Academaidd. Ni fydd modd i Ymddiriedolwr Sabothol nac unrhyw un o'r deg Cynrychiolydd Academaidd a ddetholir ar hap i fynychu cyfarfodydd Cyngor y Myfyrwyr fod yn Is-Gadeirydd. Rhag unrhyw amheuaeth, cynhelir yr etholiad gan ddefnyddio system etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel y'i diffinnir gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.

5.5 Cyfarfodydd

5.5.1 Y cworwm ar gyfer cyfarfod o Gyngor y Myfyrwyr fydd 50% o aelodau etholedig Cyngor y Myfyrwyr plws un. Ni fydd aelodau sy'n Gynrychiolwyr Academaidd yn ffurfio rhan o'r cworwm os nad ydynt yn bresennol. Bernir bod cyfarfod heb gworwm hefyd os nad oes Ymddiriedolwr Sabothol yn bresennol.

5.5.2 Os bydd cyfarfod heb gworwm neu'n mynd islaw'r cworwm, ni chynhelir unrhyw fusnes ac eithrio gohirio'r cyfarfod. Rhoddir o leiaf bum niwrnod o rybudd o ailgynnull y cyfarfod a ohiriwyd. Yn y cyfarfod a ailgynnullir, gellir cynnal y busnes heb ei gwblhau y galwyd y cyfarfod gwreiddiol ar ei gyfer heb gworwm.

5.5.3 Os bydd mwy na 50% o'r aelodau sy'n bresennol yn ymatal rhag pleidlais yng Nghyngor y Myfyrwyr, bernir bod y bleidlais heb gworwm.

- 5.5.4 Os bydd unrhyw gynnig yn methu mewn unrhyw gorff llunio polisi, ni fydd yr un cynnig yn cael ei gyflwyno i'w ystyried eto yn ystod yr un flwyddyn academaidd. Y Cadeirydd fydd yn barnu a yw cynnig yr un fath ag un blaenorol.
 - 5.5.5 Os bydd pleidlais gyfartal, bydd gan y Cadeirydd bleidlais fwrw.
 - 5.5.6 Bydd Cyngor y Myfyrwyr yn cyfarfod ddim llai na phum gwaith ym mhob sesiwn academaidd. Dylid cynnal o leiaf un cyfarfod yn ystod pob tymor.
 - 5.5.7 Y Cadeirydd fydd yn cynnull Cyngor y Myfyrwyr a bydd angen o leiaf 48 awr o rybudd.
 - 5.5.8 Bydd y Cadeirydd yn cynnull cyfarfod eithriadol ar gais:
 - (a) y Llywydd;
 - (b) mwyafrif o'r Ymddiriedolwyr Sabothol;
 - (c) mwyafrif o Swyddogion Ymgyrchoedd; neu
 - (d) mwyafrif o aelodau Cyngor y Myfyrwyr.
 - 5.5.9 Cynhelir Cyngor y Myfyrwyr yn unol â'r Rheolau Sefydlog a nodir yn Atodiad 3.
- 5.6 Cyfrifoldebau
- 5.6.1 Bydd cyfrifoldebau Cyngor y Myfyrwyr yn cynnwys:
 - (a) cynrychioli llais y Myfyrwyr;
 - (b) gosod Polisi'r Undeb a chyfeirio Polisi at yr Aelodau yn unol ag Erthygl 49.1.2;
 - (c) creu, diddymu ac addasu'r Is-Ddeddfau ar y cyd â'r Ymddiriedolwyr yn unol ag Erthygl 50;
 - (d) derbyn adroddiadau chwarterol gan yr Ymddiriedolwyr;
 - (e) derbyn unrhyw wariant gan dîm y swyddogion etholedig sydd dros £500 ac nad yw'n gysylltiedig ag UCM na chynefino;
 - (f) ffurfio, cyfarwyddo, derbyn adroddiadau gan a diddymu gweithgorau; a
 - (g) derbyn cyllideb yr Undeb yng nghyfarfod cyntaf y Sesiwn Academaidd.
- 5.7 Diswyddo Cynghorwyr
- 5.7.1. Bernir y bydd unrhyw Gynghorydd sy'n absennol heb reswm da o dri chyfarfod o Gyngor y Myfyrwyr mewn unrhyw un Sesiwn Academaidd wedi ymddiswyddo.
 - 5.7.2 Cyngor y Myfyrwyr fydd yn penderfynu ar y diffiniad o "reswm da".
- 5.8.1. Llenwi Swyddi Cynghorwyr
- 5.8.1 Pan fydd llefydd gwag ar Gyngor y Myfyrwyr oherwydd diswyddo neu ymddiswyddiad Cynghorwyr, bydd y llefydd gwag hynny'n cael eu llenwi yn unol â'r weithdrefn ethol a roddir yn Atodiad 2.
 - 5.8.2 Os bernir bod hynny'n briodol, gall lle gwag ar Gyngor y Myfyrwyr barhau'n wag a bydd y cworwm yn cael ei addasu o ganlyniad, ond ni fydd fyth yn llai na 13. Rhag amheuaeth, Cyngor y Myfyrwyr a fydd yn penderfynu beth y bernir ei fod yn briodol.

6. Pwyllgor Craffu

6.1 Cyfansoddiad

- 6.1.1 Bydd aelodaeth y Pwyllgor Craffu yn cynnwys deg Myfyriwr sy'n Aelod, a etholir trwy bleidlais campws cyfan.
- 6.1.2 Bydd aelod o staff Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn bresennol yn y Pwyllgor Craffu.
- 6.1.3 Gwahoddir pob Ymddiriedolwr Sabothol a Swyddog Ymgyrch i fynychu fel y bo'n briodol.
- 6.1.4 Etholir y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd gan ac o blith aelodau'r Pwyllgor Craffu. Os na fydd y Cadeirydd yn bresennol, bydd yr Is-Gadeirydd yn ymgymryd â swyddogaethau'r Cadeirydd. Rhag unrhyw amheuaeth, etholir y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd ar wahân gan ddefnyddio system etholiadol y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy fel y'i diffinnir gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol.
- 6.1.5 Bydd y Cadeirydd yn cael pleidlais fwrw os bydd pleidlais yn gyfartal.
- 6.1.6 Bydd Cadeirydd Cyngor y Myfyrwyr yn cael gwahoddiad i fynychu, ond ni fydd yn aelod.

6.2 Cyfarfodydd

- 6.2.1 Bydd y Pwyllgor Craffu yn cyfarfod o leiaf ddwy waith yn ystod pob tymor.
- 6.2.2 Er mwyn cynnal busnes, rhaid bod o leiaf hanner aelodau'r Pwyllgor Craffu plws un yn bresennol.
- 6.2.3 Gellir galw Cyfarfod Craffu eithriadol gan:
 - a) Hanner aelodau'r Pwyllgor, plws un;
 - b) Cadeirydd Cyngor y Myfyrwyr;
 - c) mwyafrif aelodau unrhyw un o Bwyllgorau Gweithredol yr Ymddiriedolwyr Sabothol;
 - d) mwyafrif o Swyddogion Ymgyrchoedd; neu
 - e) mwyafrif o'r Ymddiriedolwyr Sabothol.

6.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- 6.3.1 Mae'r Pwyllgor Craffu yn Is-Bwyllgor i Gyngor y Myfyrwyr, ac yn hynny o beth, rhaid iddo gyflawni'r dyletswyddau arfer y pwerau a ddirprwyir iddo gan Gyngor y Myfyrwyr.
- 6.3.2 Bod yn gyfarwydd â rolau a chyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr Sabothol a'r Swyddogion Ymgyrchoedd.
- 6.3.3 Mynnu bod yr Ymddiriedolwyr Sabothol a'r Swyddogion Ymgyrchoedd yn atebol mewn perthynas â'u rolau, eu cyfrifoldebau a'u hymrwymadau maniffesto.
- 6.3.4 Lle bo hynny'n briodol, cefnogi a grymuso Ymddiriedolwyr Sabothol a Swyddogion Ymgyrchoedd yn y prosiectau y byddant yn ymgymryd â hwy.

- 6.3.5 Ystyried rhoi cerydd neu gyflwyno cynnig o ddiffyg hyder i Gyngor y Myfyrwyr, mewn achos lle na fydd Ymddiriedolwr Sabothol neu Swyddog Ymgych yn cyflawni eu rolau, cyfrifoldebau neu ymrwymadau maniffesto.
- 6.4 Diswyddo Aelod o'r Pwyllgor Craffu
 - 6.4.1 Bernir y bydd unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Craffu sy'n absennol heb reswm da o ddau gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu mewn unrhyw un Sesiwn Academaidd wedi ymddiswyddo.
 - 6.4.2 Y Pwyllgor Craffu fydd yn penderfynu ar y diffiniad o "reswm da".
- 6.5 Llenwi Llefydd Gwag ar y Pwyllgor Craffu
 - 6.5.1 Pan fydd llefydd gwag ar y Pwyllgor Craffu oherwydd diswyddo neu ymddiswyddiad Aelodau o'r Pwyllgor Craffu, bydd y llefydd gwag hynny'n cael eu llenwi yn unol â'r weithdrefn ethol a roddir yn Atodiad 2. Bydd etholiad o'r fath yn cael ei gynnal ar y cyfle rhesymol cynharaf.
 - 6.5.2 Pan fydd llefydd gwag ar y Pwyllgor Craffu yn golygu nad oes modd cael cworwm, gellir ethol Myfyrwyr sy'n Aelodau i'r Pwyllgor Craffu o blith a gan Gyngor y Myfyrwyr er mwyn galluogi'r Pwyllgor Craffu i gyrraedd cworwm.
 - 6.5.3 Os bernir bod hynny'n briodol, mae modd i le gwag ar y Pwyllgor Craffu barhau'n wag. Rhag amheuaeth, y Pwyllgor Craffu a fydd yn penderfynu beth y bernir ei fod yn briodol.

7. Ymddiriedolwyr Sabothol

- 7.1 Mae'n ofynnol i bob Ymddiriedolwr Sabothol gynorthwyo Ymddiriedolwyr eraill yr Undeb i gyflawni'r dyletswyddau sy'n ddisgwyliedig gan Ymddiriedolwyr Elusennau cofrestredig yn effeithiol.
- 7.2 Cymhwyster i fod yn Ymddiriedolwr Sabothol, eu cyfrifoldebau a'u tâl
- 7.2.1 Bydd pob Ymddiriedolwr Sabothol yn arwyddo cytundeb cyflogaeth gyda'r Undeb, a rhaid bod ganddynt hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig trwy gydol cyfnod disgwyliedig eu cyflogaeth.
 - 7.2.2 Bydd y tymor gwasanaeth yn cael ei ddiffinio fel arfer fel blwyddyn galendr gan ddechrau ar 1^{af} Gorffennaf. Ni ddylai Myfyriwr ymgymryd â rôl Ymddiriedolwr Sabothol fel arfer os oes ganddynt unrhyw ymrwymïadau academaidd yn ystod blwyddyn eu gwasanaeth ac eithrio ail-arholiadau diwedd sesiwn.
 - 7.2.3 Ar yr adeg y'u hetholir, rhaid i bob Ymddiriedolwr Sabothol fod yn fyfyrwr neu'n Ymddiriedolwr Sabothol yn unol ag Erthygl 23.4.
 - 7.2.4 Ar yr adeg y'u hetholir, rhaid i bob Ymddiriedolwr Sabothol beidio â bod wedi'u gwahardd neu eu heithrio rhag bod yn ymddiriedolwr elusen neu'n gyfarwyddwr cwmni yn unol â deddfwriaeth berthnasol.
 - 7.2.5 Bernir bod Ymddiriedolwyr Sabothol yn fyfyrwyr cofrestredig ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn Fyfrwyr sy'n Aelodau o'r Undeb.
 - 7.2.6 Rhoddir manylion darpariaethau ar gyfer dyletswyddau a thâl Ymddiriedolwyr Sabothol mewn cytundeb cyflogaeth.
 - 7.2.7 Caiff tâl Ymddiriedolwyr Sabothol ei bennu a'i adolygu gan y Pwyllgor Penodiadau a Thaliadau.
 - 7.2.8 Bydd rolau Ymddiriedolwyr Sabothol yn cael eu pennu gan Gyfarfod Aelodau yn ystod y Sesiwn Academaidd flaenorol, ond bydd bob amser yn cynnwys Llywydd.
- 7.3 Bydd yn ofynnol i bob Ymddiriedolwr Sabothol:
- (a) ddefnyddio diwydrwydd dyladwy wrth lywodraethu'r Undeb;
 - (b) cynrychioli buddiannau Myfyrwyr sy'n Aelodau hyd eithaf eu gallu;
 - (c) ymgysylltu'n gadarnhaol â gwaith y Pwyllgor Craffu;
 - (d) cynnal gwerthoedd yr Undeb; a
 - (e) cynnal egwyddorion bywyd cyhoeddus.
- 7.4 Bydd gan bob Ymddiriedolwr Sabothol hawl i gael Pwyllgor Gweithredol. Bydd Pwyllgor Gweithredol yn cyfeirio at unrhyw grŵp o fyfyrwyr sy'n gwirfoddoli i gynorthwyo'r Ymddiriedolwr Sabothol gyda'u dyletswyddau. Bydd pob Ymddiriedolwr Sabothol yn recriwtio'r Pwyllgorau Gweithredol hyn ym mha bynnag fodd y dewisant, ac eithrio'r Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr UA, a'r Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli - y bydd eu Pwyllgorau Gweithredol yn cael eu nodi yn Is-Ddeddf 12 ac Is-Ddeddf 14 yn y drefn honno.

8. Swyddogion Ymgyrchoedd

- 8.1 Ni fydd yn ofynnol i Swyddogion Ymgyrchoedd ddiffinio'u hunain fel aelodau o grŵp cawcws er mwyn cynrychioli'r grŵp hwnnw.
- 8.2 Etholir Swyddogion Ymgyrchoedd drwy bleidlais Campws Cyfan.
- 8.3 Bydd yn ofynnol i bob Swyddog Ymgyrch:
- (a) ddefnyddio diwydrwydd dyladwy wrth gyflawni eu rolau;
 - (b) cynrychioli buddiannau Myfyrwyr sy'n Aelodau hyd eithaf eu gallu;
 - (c) ymgysylltu'n gadarnhaol â gwaith y Pwyllgor Craffu;
 - (d) cynnal gwerthoedd yr Undeb; a
 - (e) cynnal egwyddorion bywyd cyhoeddus.
- 8.4. Er mwyn cydlynu gwaith Swyddogion Ymgyrchoedd, bydd Pwyllgor Ymgyrchoedd fydd yn cynnwys y Swyddogion Ymgyrchoedd a'r Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd. Bydd y pwyllgor hwn yn cael ei gynnull a'i gadeirio gan yr Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd.
- 8.5. Bydd y Pwyllgor Ymgyrchoedd yn cyfarfod o leiaf ddwy waith yn ystod pob tymor academiaidd. Bydd aelodau'r pwyllgor yn derbyn dau ddiwrnod o rybudd o unrhyw gyfarfod.
- 8.6. Seibiau Swyddogion Ymgyrchoedd:
- 8.6.1. Os bydd Swyddog Ymgyrch yn dymuno cymryd saib o'u dyletswyddau, gallant wneud hynny drwy gyflwyno rhybudd i'r Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd.
- 8.6.2. Gall Swyddog Ymgyrchoedd bennu dyddiad pryd maent yn bwriadu ailgydio yn eu dyletswyddau yn eu rhybudd i'r Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd, a gellir estyn cyfnod saib drwy roi rhybudd pellach i'r Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd.
- 8.6.3. Ni fydd unrhyw gyfyngiad amser ar y saib y gall Swyddog Ymgyrch ei gymryd yn ystod y Flwyddyn Academiaidd.
- 8.6.4. Bydd yr Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd yn cynnal cysylltiad cyson a phriodol gyda Swyddog Ymgyrch yn ystod cyfnod saib.
- 8.6.5. Ni fydd yn ofynnol i Swyddog Ymgyrch fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn ystod cyfnod y maent wedi cymryd saib o'u rôl.
- 8.6.6. Bydd yr Is-Lywydd Lles ac Ymgyrchoedd, hyd eithaf eu gallu, yn parhau â gwaith Swyddog Ymgyrch tra bydd swyddog wedi cymryd cyfnod saib o'u dyletswyddau.

9. Ymddiswyddiadau a Diswyddiadau Ymddiriedolwyr Sabothol

- 9.1 Gall Ymddiriedolwr Sabothol neu ddarpar-Ymddiriedolwr Sabothol ymddiswyddo am resymau personol. Bydd y swydd wag yn cael ei llenwi cyn gynted â phosibl yn unol â'r ddarpariaeth yn Atodiad 2 neu gall barhau heb ei llenwi os bydd Cyngor y Myfyrwyr yn barnu bod hynny'n briodol.
- 9.2 Y weithdrefn ar gyfer diswyddo Ymddiriedolwr Sabothol neu ddarpar-Ymddiriedolwr Sabothol fydd:
- 9.2.1 cynnig o ddiffyg hyder yn yr Ymddiriedolwr Sabothol neu'r darpar-Ymddiriedolwr Sabothol wedi'i basio gan fwyafrif y Myfyrwyr sy'n aelodau sy'n pleidleisio mewn Refferendwm, ar yr amod bod o leiaf 1,500 o Fyfrwyr sy'n Aelodau yn bwrw pleidlais yn y Refferendwm. Yr unig fodd y bydd cynnig o'r fath yn cael ei sbarduno ydy trwy Ddeiseb Ddiogel o ddiffyg hyder wedi ei harwyddo gan o leiaf 500 o Fyfrwyr sy'n Aelodau;
- Neu
- 9.2.2 cynnig o ddiffyg hyder yn yr Ymddiriedolwr Sabothol neu'r darpar-Ymddiriedolwr Sabothol wedi'i basio gan fwyafrif o 75% mewn pleidlais o Gyngor y Myfyrwyr.
- 9.3 Unwaith y byddant wedi cael eu hethol, bydd gan ddarpar-Ymddiriedolwr Sabothol yr hawl i arsylwi pob pwyllgor sy'n berthnasol i'w swydd.
- 9.4 Bydd unrhyw Ymddiriedolwr Sabothol a etholir yn lle un arall, mewn achos o ymddiswyddo neu ddiswyddo, yn cychwyn ar eu tymor gwasanaeth ar unwaith pan gânt eu hethol. Bydd y tymor gwasanaeth hwn yn dod i ben pan fyddai tymor gwasanaeth eu rhagflaenydd wedi dod i ben pe na baent wedi ymadael â'r swydd.

10. Cynrychiolaeth Academaidd

- 10.1 Bydd yr Undeb yn sicrhau cynrychiolaeth academaidd i Fyfirwyr sy'n Aelodau ym Mhrifysgol Caerdydd.
- 10.2 Bydd fforymau academaidd i bob Coleg ym Mhrifysgol Caerdydd ac un i fyfirwyr ymchwil Ôl-raddedig. Bydd y fforymau yn trafod materion academaidd sy'n effeithio ar fyfirwyr gyda chynrychiolwyr Prifysgol Caerdydd.
- 10.3 Y fforymau academaidd fydd:
- (a) Fforwm Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol;
 - (b) Fforwm Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd;
 - (c) Fforwm Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg; a
 - (d) Fforwm Cynrychiolwyr Ymchwil Ôl-raddedig.
- 10.4 Aelodaeth y fforymau fydd:
- (a) Yr Is-Lywydd Addysg;
 - (b) Cyd-gadeirydd fel y manylir yn 10.5;
 - (c) Cadeirydd pob Panel Myfirwyr a Staff o fewn y Coleg penodol neu Gynrychiolwyr Myfirwyr Ymchwil Ôl-raddedig yn achos Fforwm y Cynrychiolwyr Ymchwil Ôl-raddedig;
 - (d) Dirprwy Is-Ganghellor ar gyfer Profiad Myfirwyr a Safonau Academaidd; a
 - (e) Deon y Coleg ar gyfer Addysg a Myfirwyr.
- 10.5 Cyfarfodydd
- (a) Bydd pob fforwm yn cyfarfod o leiaf ddwy waith yn ystod y Sesiwn Academaidd.
 - (b) Yr Is-Lywydd Addysg fydd yn Cadeirio pob fforwm ac eithrio:
 - i. Fforwm y Cynrychiolwyr Ymchwil Ôl-raddedig, a fydd yn cael ei Gyd-Gadeirio gyda'r Is-Lywydd Myfirwyr Ôl-raddedig; a
 - ii. Fforwm y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd, a fydd yn cael ei Gyd-Gadeirio gydag Is-Lywydd Campws Parc y Mynydd Bychan.
 - (c) Fel y barno'r Cadeirydd, gwahoddir cynrychiolwyr ychwanegol o Brifysgol Caerdydd i'r cyfarfod.

11. Chwaraeon

- 11.1 Bydd Undeb Athletau a fydd yn delio â phob mater mewn perthynas â chwaraeon o fewn yr undeb.
- 11.2 Bydd hawliau a chyfrifoldebau yr holl Glybiau Chwaraeon a Thimau IMG yn cael eu hamlinellu o fewn y Deddfau Gweithgareddau.

12. Clybiau Chwaraeon

12.1 Pwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau

12.1.1 Aelodaeth Pwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau fydd:

- (a) Yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau; a
- (b) Dim llai na phump a dim mwy nag wyth myfyriwr sy'n aelod a ddetholir yn flynyddol o blith aelodau'r Undeb Athletau gan banel dan gadeiryddiaeth yr Is-Lywydd Chwaraeon

12.1.2 Cyfarfodydd

- (a) Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen.
- (b) Gellir cynnal cyfarfod ar gais yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau neu unrhyw dri aelod o Bwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau.
- (c) Y cworwm fydd 50% o aelodau'r Pwyllgor Gweithredol.
- (d) Bernir y bydd unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Gweithredol sy'n absennol heb reswm da o dri chyfarfod o Bwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb athletau mewn unrhyw un Sesiwn Academaidd wedi ymddiswyddo.
- (e) Caiff cyfarfodydd eu cadeirio gan yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau neu eu henwebai.
- (f) Gellir gwahodd unigolion eraill i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau yn ôl yr angen.

12.1.3 Cyfrifoldebau

- (a) Gwneud argymhellion i'r Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau ynglŷn a chynnal clybiau chwaraeon o fewn yr Undeb.
- (b) Cynrychioli clybiau chwaraeon o fewn yr Undeb a gwneud argymhellion i Gyngor y Myfyrwyr ar ran aelodau Clybiau Chwaraeon yr Undeb Athletau.
- (c) Derbyn cynigion ar gyfer gwelliannau i'r Deddfau Gweithgareddau.
- (d) Cymeradwyo cyfansoddiad clybiau chwaraeon.
- (e) Ystyried ceisiadau am aelodaeth gysylltiol gan glybiau chwaraeon.

12.2 Fforwm Clybiau'r Undeb Athletau

12.2.1 Aelodaeth Fforwm Clybiau'r Undeb Athletau fydd:

- (a) Pwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau
- (b) O leiaf un aelod pwyllgor o bob clwb chwaraeon cysylltiol. Pan fydd Myfyriwr sy'n Aelod yn mynychu Fforwm Clybiau'r Undeb Athletau ar ran mwy nag un clwb, dim ond un pleidlais fydd ganddynt. Pan fydd mwy nag un aelod pwyllgor yn bresennol, dim ond un bleidlais fydd gan bob Clwb.

12.2.2 Cyfarfodydd

- (a) Bydd cyfarfodydd Fforwm Clybiau'r Undeb Athletau'n cael eu cynnal o leiaf ddwy waith yn ystod pob Sesiwn Academaidd.
- (b) Gellir galw cyfarfodydd Fforwm Clybiau'r Undeb Athletau ar gais yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau, mwyafrif aelodau Pwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau neu gan gynrychiolwyr deg clwb chwaraeon cysylltiol.
- (c) Caiff cyfarfodydd Fforwm Clybiau'r Undeb Athletau eu cadeirio gan yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau neu eu henwebai.
- (d) Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd fydd 50% o'r aelodau.

12.2.3 Cyfrifoldebau

- (a) Ethol y Myfyrwyr i fod yn Aelodau o Bwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau.
- (b) Trafod a gwneud argymhellion i'r Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau ac i Bwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau.
- (c) Tynnu sylw at faterion o bryder sy'n effeithio ar glybiau chwaraeon.
- (d) Derbyn hysbysiadau ynglŷn a Chlybiau sy'n dod yn gysylltiol neu'n peidio â bod yn gysylltiol.
- (e) Derbyn adroddiad ariannol blyneddol o incwm a gwariant o fewn yr Undeb Athletau.

12.3 Cyfansoddiad Clybiau Chwaraeon

12.3.1 Mae'n ofynnol i bob Clwb Chwaraeon cysylltiol gael cyfansoddiad wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau. Rhaid i ddiwygiadau i gyfansoddiad clwb chwaraeon gael eu cymeradwyo gan gyfarfod cyffredinol o'r Myfyrwyr sy'n Aelodau o'r clwb chwaraeon hwnnw a Phwyllgor Gweithredol Clybiau'r Undeb Athletau.

12.3.2 Mae Pwyllgor Gweithredol yr Undeb Athletau yn cadw'r hawl i gyflwyno gwelliannau i gyfansoddiadau clybiau chwaraeon i'w derbyn yng nghyfarfodydd cyffredinol clwb chwaraeon.

13. Gemau Mewn Golegol (IMG)

13.1 Pwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol (IMG) yr Undeb Athletau

13.1.1 Aelodaeth Pwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau fydd:

- (a) Yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau; a
- (b) Cynrychiolydd o bob fframwaith chwaraeon o fewn yr IMG

13.1.2 Cyfarfodydd

- (a) Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen ar gais yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau neu unrhyw dri aelod o Bwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau.
- (b) Y cworwm fydd 50% o aelodau'r Pwyllgor.
- (c) Bernir y bydd unrhyw Aelod sy'n absennol heb reswm da o dri chyfarfod o Bwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau mewn unrhyw un Sesiwn Academaidd wedi ymddiswyddo.
- (d) Caiff cyfarfodydd eu cadeirio gan yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau neu eu henwebai.
- (e) Gellir gwahodd unigolion eraill i fynychu Cyfarfodydd o Pwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau fel y bo'n briodol.

13.1.3 Cyfrifoldebau

- (a) Gwneud argymhellion i'r Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau ynglŷn a chynnal rhaglen y Gemau Mewn Golegol o fewn yr Undeb.
- (b) Cynrychioli'r Gemau Mewn Golegol o fewn yr Undeb a gwneud argymhellion i Gyngor y Myfyrwyr ar ran aelodau Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau.

13.2 Fforymau Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau

13.2.1 Aelodaeth Fforymau Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau fydd:

- (a) Pwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau; ac
- (b) un aelod o bob clwb chwaraeon cofrestredig. Pan fydd aelod yn mynychu Fforwm Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau ar ran mwy nag un tîm, dim ond un pleidlais fydd ganddynt. Pan fydd mwy nag un aelod yn bresennol, dim ond un bleidlais fydd gan bob Clwb.

13.2.2 Cyfarfodydd

- (a) Bydd cyfarfodydd Fforymau Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau'n cael eu cynnal o leiaf ddwy waith yn ystod pob Sesiwn Academaidd.
- (b) Gellir galw cyfarfodydd Fforymau Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau ar gais yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau, mwyafrif aelodau Pwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau neu gan gynrychiolwyr deg o dimau cofrestredig y Gemau Mewn Golegol.
- (c) Caiff Fforymau Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau eu cadeirio gan yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau neu eu henwebai.
- (d) Gall yr Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau gynnal fforwm ar gyfer pob un o chwaraeon y Gemau Mewn Golegol neu gall gyfuno fforymau.

13.2.3 Cyfrifoldebau

- (a) Ethol y Myfyrwyr i fod yn Aelodau o Bwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau.
- (b) Trafod a gwneud argymhellion i Bwyllgor Gweithredol Gemau Mewn Golegol yr Undeb Athletau a'r Is-Lywydd Chwaraeon a Llywydd yr Undeb Athletau.
- (c) Tynnu sylw at faterion o bryder sy'n effeithio ar dimau'r Gemau Mewn Golegol.

14. Cymdeithasau

14.1 Bydd Urdd Cymdeithasau a fydd yn delio â phob mater mewn perthynas â chymdeithasau o fewn yr undeb.

14.2 Bydd hawliau a chyfrifoldebau yr holl gymdeithasau yn cael eu hamlinellu o fewn y Deddfau Gweithgareddau.

14.3 Pwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau

14.3.1 Aelodaeth Pwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau fydd:

- (a) Yr Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli; a
- (b) Dim llai na phump a dim mwy nag wyth myfyriwr sy'n aelod a ddetholir yn flynyddol o blith aelodau'r Urdd Cymdeithasau gan banel dan gadeiryddiaeth yr Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli.

14.3.2 Cyfarfodydd

- (a) Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen ac fe'u cynhelir ar gais yr Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli neu unrhyw dri aelod o Bwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau.
- (b) Y cworwm fydd 50% o aelodau'r Pwyllgor Gweithredol.
- (c) Bernir y bydd unrhyw Aelod sy'n absennol heb reswm da o dri chyfarfod o Bwyllgor Gweithredol y Cymdeithasau mewn unrhyw un Sesiwn Academaidd wedi ymddiswyddo.
- (d) Caiff cyfarfodydd eu cadeirio gan yr Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli neu eu henwebai.
- (e) Gellir gwahodd unigolion eraill i fynychu Pwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau fel y bo'n briodol.

14.3.3 Cyfrifoldebau

- (a) Gwneud argymhellion i'r Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli ynglŷn a chynnal cymdeithasau o fewn yr Undeb.
- (b) Cynrychioli cymdeithasau o fewn yr Undeb a gwneud argymhellion i Gyngor y Myfyrwyr ar ran aelodau yr Urdd Cymdeithasau.
- (c) Derbyn cynigion ar gyfer gwelliannau i'r Deddfau Gweithgareddau.
- (d) Cymeradwyo cyfansoddiad cymdeithasau.
- (e) Ystyried ceisiadau am aelodaeth gysylltiol gan gymdeithasau.

14.4 Fforymau yr Urdd Cymdeithasau

14.4.1 Mae fforymau yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Cymdeithas gysylltiol. Fel y barno'r Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli, gellir rhannu fforymau fesul math neu gategori o gymdeithasau.

14.4.2 Aelodaeth Fforymau yr Urdd Cymdeithasau fydd:

- (a) Pwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau; ac
- (b) o leiaf un aelod pwyllgor o bob cymdeithas gysylltiol. Pan fydd aelod yn mynychu Fforwm yr Urdd Cymdeithasau ar ran mwy nag un cymdeithas, dim ond un pleidlais fydd ganddynt. Pan fydd mwy nag un aelod pwyllgor yn bresennol, dim ond un bleidlais fydd gan bob Cymdeithas.

14.4.3 Cyfarfodydd

- (a) Bydd cyfarfodydd Fforymau'r Urdd Cymdeithasau yn cael eu cofnodi ac yn cael eu cynnal o leiaf ddwy waith yn ystod pob Sesiwn Academaidd.
- (b) Gellir galw Fforwm yr Urdd Cymdeithasau ar gais yr Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli, mwyafrif aelodau Pwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau neu gan gynrychiolwyr deg cymdeithas.
- (c) Caiff cyfarfodydd Fforymau yr Urdd Cymdeithasau eu cadeirio gan yr Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli neu eu henwebai.
- (d) Y cworwm ar gyfer fforymau fydd 50% o'r aelodau.

14.4.4 Cyfrifoldebau

- (a) Ethol y Myfyrwyr i fod yn Aelodau o Bwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau.
- (b) Trafod a gwneud argymhellion i Bwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau a'r Is-Lywydd Cymdeithasau a Gwirfoddoli.
- (c) Tynnu sylw at faterion o bryder sy'n effeithio ar gymdeithasau.
- (d) Derbyn hysbysiadau ynglŷn a Chymdeithasau sy'n dod yn gysylltiol neu'n peidio â bod yn gysylltiol.
- (e) Derbyn adroddiad ariannol blynyddol o incwm a gwariant o fewn yr Urdd Cymdeithasau.

14.5 Cyfansoddiad Cymdeithasau

14.5.1 Mae'n ofynnol i bob cymdeithas gysylltiol gael cyfansoddiad wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau. Rhaid i ddiwygiadau i gyfansoddiad cymdeithas gael eu cymeradwyo gan gyfarfod cyffredinol o'r Myfyrwyr sy'n Aelodau o'r gymdeithas honno a Phwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau.

14.5.2 Mae Pwyllgor Gweithredol yr Urdd Cymdeithasau yn cadw'r hawl i gyflwyno gwelliannau i gyfansoddiadau cymdeithasau i'w derbyn yng nghyfarfodydd cyffredinol cymdeithas.

15. Cyfryngau Myfyrwyr

- 15.1 Bydd Cyfryngau Myfyrwyr Caerdydd a fydd yn delio â phob mater mewn perthynas â gweithgaredd cyfryngau myfyrwyr o fewn yr undeb.
- 15.2 Bydd Cyfryngau Myfyrwyr Caerdydd yn cynnwys papur newydd, cylchgrawn, gorsaf radio a gorsaf gynhyrchu teledu. Y sianeli cyfryngau hyn fydd:
- (a) Papur newydd o'r enw "gair rhydd";
 - (b) cylchgrawn o'r enw "Quench";
 - (c) Gorsaf radio o'r enw "Xpress Radio"; a
 - (d) Gorsaf Gynhyrchu teledu o'r enw "Cardiff UnionTV"
- 15.3 Bydd Grŵp Cynghori Cyfryngau Myfyrwyr yn goruchwyllo gweithgaredd Cyfryngau Myfyrwyr drwy ddarparu cyngor, cefnogaeth a chyfeiriad i'r gwirfoddolwyr arweiniol o fewn pob un o'r llwyfannau cyfryngau mewn perthynas â'r arferion gorau, asesu risg a chydymffurfio cyfreithiol. Ni fydd y Grŵp Cynghori yn cynnal unrhyw reolaeth olygyddol dros Gyfryngau Myfyrwyr.

15.3.1 Aelodaeth

- (a) Bydd y Grŵp Cynghori yn cynnwys aelodau mewnol; Llywydd yr Undeb, y Prif Weithredwr (neu eu henwebai) a dau unigolyn Allanol sydd ag arbenigedd yng nghyfraith y cyfryngau.
- (b) Caiff aelodau allanol y Grŵp Cynghori eu dethol er mwyn darparu mewnbn cyfreithiol ac academaidd penodol. Caiff aelodau allanol y Grŵp Cynghori eu dethol gan aelodau mewnol y Grŵp Cynghori.
- (c) Caiff aelodaeth y Grŵp Cynghori ei adolygu'n flynyddol.
- (d) Caiff y grŵp ei gadeirio gan y Prif Weithredwr neu eu henwebai.

15.3.2 Cyfarfodydd

- (a) Bydd y Grŵp Cynghori yn cyfarfod o leiaf yn flynyddol ond gellir galw cyfarfod unrhyw bryd ar gais unrhyw aelod o'r grŵp neu wirfoddolwr arweiniol er mwyn darparu cymorth mewn perthynas a mater penodol.
- (b) Gall y Grŵp Cynghori ddarparu cyfarwyddyd heb gyfarfod yn gorfforol pan fydd tri aelod yn cytuno.

15.3.3 Cyfrifoldebau

Bydd y Grŵp Cynghori yn:

- (a) Darparu cyngor a chefnogaeth i'r gwirfoddolwyr arweiniol ynglŷn â chyfraith newyddiaduraeth a'r arferion gorau.
- (b) Darparu cyfarwyddyd i wirfoddolwyr arweiniol ar faterion sy'n ymwneud â chynnwys risg uchel.
- (c) Er mwyn cydbwyso rhyddid mynegiant a risg gyfreithiol, bydd y grŵp yn penderfynu a yw cynnwys risg uchel yn addas i'w gyhoeddi neu ei ddarlledu a gall gyhoeddi canllawiau neu gyfarwyddyd ynglŷn ag ymgymeriadau y mae eu hangen cyn cyhoeddi neu ddarlledu. Pan nad oes modd lliniaru'r risg sy'n gysylltiedig â chyhoeddi neu ddarlledu trwy gamau gweithredu ychwanegol, byddai gan y Grŵp Cynghori awdurdod i atal cyhoeddi neu ddarlledu.

- (d) Ystyried cwynion sy'n ymwneud â chynnwys cyhoeddiadau a darllediadau ac mae'r hawl ganddynt i osod camau gweithredu sy'n unioni cwynion a gaiff eu derbyn.
- 15.4 Ni ddylai Cyfryngau Myfyrwyr weithredu'n groes i'r datganiad Cyfle Cyfartal ym Mholisi Cyfle Cyfartal yr Undeb.
- 15.5 Yn Ystod Etholiadau'r Undeb:
- 15.5.1 Ni fydd Cyfryngau Myfyrwyr yn mynegi unrhyw sylw neu feirniadaeth nac yn cynnig barn ynglŷn ag unrhyw ymgeisydd rhwng amser cau'r enwebiadau a'r amser y bydd canlyniad yr etholiad wedi'i gyhoeddi. Ni fydd Cyfryngau Myfyrwyr yn dosbarthu gwybodaeth ffug drwy wyrddroi, dethol neu gamliwio unrhyw ymgeisydd. Dim ond ffeithiau ynglŷn ag ymgeiswyr sydd o ddiddordeb i'r etholaeth fydd yn cael eu hargraffu gan Gyfryngau Myfyrwyr.
- 15.5.2 Gwaherddir Cyfryngau Myfyrwyr rhag cyhoeddi enw, ffugenwau, llun neu unrhyw ddeunydd sy'n ymwneud ag unrhyw ymgeisydd yn ystod y cyfnod amser a nodir yn Is-Ddeddf 15.5.1 uchod. Gwneir eithriadau ar gyfer llinellau enw gan gyfranwyr rheolaidd, ac Ymddiriedolwyr Sabothol presennol sy'n ymgeisio i gael eu hail-ethol y bydd caniatâd i'w dyfynnu mewn perthynas â'u rôl bresennol fel Ymddiriedolwr Sabothol.
- 15.5.3 Yn ystod y cyfnod amser a nodir yn Is-Ddeddf 15.5.1 uchod, bydd y Swyddog Canlyniadau, neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau yn eu habsenoldeb, yn gweithredu fel ymgynghorydd ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag etholiadau'r Undeb. Bydd cyfeiriad at unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r etholiadau yn cael eu cadarnhau gyda'r Swyddog Canlyniadau neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau yn eu habsenoldeb, cyn cyhoeddi.
- 15.6 Os bydd unrhyw unigolyn o'r farn eu bod wedi cael eu portreadu mewn modd annheg neu eu pardduo gan Cyfryngau Myfyrwyr, bydd ganddynt hawl i'r camau canlynol:
- 15.6.1 Dylid cyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r Myfyriwr sy'n Olygydd neu Reolwr. Byddant yn penderfynu a yw'r gŵyn yn ddilys, gan ymateb i'r achwynydd o fewn dau ddiwrnod gwaith i dderbyn y gŵyn.
- 15.6.2 Petai'r Golygydd neu'r Rheolwr yn penderfynu bod y gŵyn yn ddilys, byddant yn cywiro unrhyw anghywirdeb niweidiol ac yn sicrhau bod y cywiriad neu'r ymddiheuriad yn cael yr amlygrwydd dyledus. Pan fydd y mater o bwys digonol, bydd y Golygydd neu'r Rheolwr yn caniatáu yr hawl i ateb i'r achwynydd.
- 15.6.3 Petai'r Golygydd neu'r Rheolwr yn penderfynu nad yw'r gŵyn yn ddilys, bydd gan yr achwynydd hawl i apelio i Grŵp Cyngori Cyfryngau Myfyrwyr. Dyma fydd y cam apelio olaf o fewn y sefydliad. Dylai unrhyw apêl pellach gael ei chyfeirio at y cyrff rheoleiddio priodol.
- 15.6.4 Bydd y Grŵp Cyngori yn ystyried cwynion a dderbynnir trwy reoleiddwyr megis Ofcom neu IPSO a byddant yn ymateb fel y bo'n briodol.
- 15.7 Bydd myfyriwr sydd wedi ymeithrio rhag aelodaeth o'r Undeb yn gallu cyflwyno cynnwys i weithgareddau cyfryngau, ond ni chaniateir iddynt gael unrhyw reolaeth olygyddol.

16. Llyfr Polisi

- 16.1 Bydd yr Undeb yn cadw Llyfr Polisi, wedi'i gyhoeddi ar ei wefan a bydd yn sicrhau y caiff ei gynnal fel cofnod cywir o Bolisi'r Undeb fel y'i penderfynwyd gan Gyfarfodydd Aelodau, Cyngor y Myfyrwyr a Refferenda.
- 16.2 Bydd Polisi yn dirwyn i ben ar ôl tair blynedd oni bai y caiff ei ail-basio fel cynnig gan Gyfarfod Aelodau neu Gyngor y Myfyrwyr.
- 16.3 Caiff Cyngor y Myfyrwyr ei hysbysu ynglŷn ag unrhyw Bolisi sydd wedi dirwyn i ben ac sydd wedi'i ddileu o'r Llyfr Polisi a chaiff hynny ei gofnodi gan Gyngor y Myfyrwyr.

17. Diwygiadau i'r Is-Ddeddfau

- 17.1 Caiff diwygiadau i'r Is-Ddeddfau eu gwneud ar y cyd gan yr Ymddiriedolwyr a Chyngor y Myfyrwyr yn unol ag Erthygl 50.
- 17.2 Gall Myfyrwyr sy'n Aelodau gynnig diwygiadau i'r Is-Ddeddfau i Gyngor y Myfyrwyr.

18. Dwyieithrwydd

18.1 Diffiniad:

18.1.1 Cymerir bod Dwyieithog yng golygu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

18.2 Cymhwyso:

18.2.1 Bydd yr Undeb yn ymdrechu i gynnal cyfathrebiadau ysgrifenedig gydag Aelodau a chyrrff allanol o fewn Cymru yn ddwyieithog.

18.2.2 Bydd pob testun ysgrifenedig a gynhyrchir ar gyfer cyfarfodydd yr Undeb megis cofnodion neu agendâu ar gael yn ddwyieithog ar gais.

18.2.3 Bydd pob cyhoeddusrwydd a arddangosir gan yr Undeb yn ddwyieithog yn unol â'r diffiniad yn 18.1.1 lle bo'n rhesymol ymarferol.

18.2.4 Darperir cyfieithu llawn ym mhob Cyfarfod Aelodau'r Undeb o dderbyn cais.

18.2.5 Dylid defnyddio symbolau, yn hytrach na geiriau, ar arwyddion yr Undeb lle bo hynny'n ymarferol.

18.2.6 Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu, yr Is-Ddeddfau a'r Llyfr Polisi ar gael i aelodau ar gais, a'r fersiwn Saesneg fydd y fersiwn fydd yn rhwymo mewn cyfraith.

18.3 Polisi'r Gymraeg:

18.3.1 Bydd gan yr Undeb Bolisi'r Gymraeg a fydd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Grŵp Llywio'r Gymraeg, a'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

18.4 Gweithredu a Gorfodi:

18.4.1 Bydd yr Undeb yn talu am wasanaethau cyfieithydd.

18.4.2 Bydd yr Undeb yn sicrhau bod cyfieithydd ac offer ar gyfer cyfieithu ar y pryd ar gael ym mhob Cyfarfod Aelodau o dderbyn cais rhesymol.

18.4.3 Ymdrinnir ag unrhyw achosion o weithredu'n groes i Bolisi'r Gymraeg yn unol â'r Weithdrefn Cwynion a gynhwysir yn Atodiad 1.

19. Protocol Staff a Myfyrwyr

19.1 Cyd-destun

19.1.1 Mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd yn sefydliad democrataidd sy'n gweithio dan gyfarwyddyd ei fyfyrwyr a'i Swyddogion Etholedig. Mae'r Undeb yn cyflogi staff i: reoli ei weithgareddau a'i wasanaethau, darparu cyngor proffesiynol, i sicrhau parhad ac i gefnogi Swyddogion Etholedig. Mae staff yn gyfrifol yn aml hefyd am weithredu polisi gwleidyddol.

19.1.2 Mae'r Undeb yn ymdrechu i gael ei gydnabod yn gyflogwr da ac mae'n ceisio creu amgylchedd gweithio cadarnhaol a chynhyrchiol. Mae'r Undeb yn gosod pwys mawr ar y berthynas rhwng ei staff a'i Swyddogion.

19.1.3 Bwriad y protocol hwn ydy ategu, nid mynd yn groes, i bolisiâu eraill yr Undeb, yn arbennig y Weithdrefn Cwynion, y Polisi Gwrthdaro Buddiannau a'r Weithdrefn Cwynion Cyflogaeth. Cynghorir aelodau staff, myfyrwyr a Swyddogion Etholedig i ymgyswddo â'r polisiâu uchod wrth benderfynu sut byddai'r ffordd orau o ddatrys mater.

19.1.4 Mae'r ddogfen hon yn ceisio darparu canllawiau cyffredinol ar egwyddorion eang, a darparu llwybrau ar gyfer datrys problemau pryd bynnag y byddant y codi. Mae natur gymhleth yr Undeb yn gallu creu 'ardaloedd llwyd' o safbwynt y berthynas rhwng gweithwyr cyflogedig a staff sy'n fyfyrwyr, Swyddogion Etholedig, Ymddiriedolwyr a Rheolwyr sydd, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cael eu rheoli'n anffurfiol. Mae disgwyl hefyd i'r perthnasoedd hyn newid yn achlysurol wrth i Swyddogion newydd gael eu hethol, polisiâu newydd gael eu datblygu a mentrau newydd gael eu dechrau. Disgwylir i staff a Swyddogion Etholedig gymryd cyfrifoldeb personol dros gynnal a datblygu amgylchedd dysgu effeithiol, a chymryd agwedd broffesiynol, rhagweithiol a rhesymol tuag at sefyllfaoedd newydd neu heriol.

19.2 Diben

19.2.1 Diben y Protocol hwn ydy amlinellu egwyddorion a chanllawiau sy'n sicrhau bod eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau:

- 19.2.1.1 Staff yr Undeb;
- 19.2.1.2 Rheolwyr yr Undeb;
- 19.2.1.3 Ymddiriedolwyr;
- 19.2.1.4 Swyddogion Etholedig;
- 19.2.1.5 Staff sy'n fyfyrwyr.

19.2.2 Mae'r Undeb yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol.

19.2.3 Darperir amgylchedd i staff lle mae ganddynt hawl i gyfrinachedd a chael eu diogelu rhag triniaeth annheg.

19.2.4 Diogelir yr Undeb rhag ymyrraeth amhriodol gan staff wrth gynnal llywodraethiant a datblygu polisi gwleidyddol.

19.3 Diffiniadau

19.3.1 Yn yr Is-Ddeddf hon:

- “Polisi gwleidyddol” ydy polisi a gaiff ei ddatblygu a’i gymeradwyo gan y Swyddogion Etholedig drwy’r strwythurau democrataidd. e.e. aelodaeth o UCM, polisi cyllido addysg;
- “Polisiau” ydy dogfennau, fel hon, a ddatblygir i raddau helaeth gan staff, sy’n darparu fframweithiau a gweithdrefnau ar gyfer gweithrediadau dydd-i-ddydd y sefydliad, e.e. Polisi Rheoli Risg, Polisi Amgylcheddol;
- “Staff” ydy unigolion neu grwpiau o unigolion a gyflogir gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd;
- “Staff sy’n fyfyrwyr” ydy myfyrwyr ym Mhrifysgol Caerdydd sy’n gweithio yn ystod cyfnod eu hastudiaethau, ond mai eu prif ddiben yn y Brifysgol ydy bod yn fyfyrwr. Ni fydd aelodau parhaol o staff sydd wedi dewis dilyn cwrs i ategu eu gwaith yn cael eu hystyried yn staff sy’n fyfyrwyr fel arfer; ac
- mae’r gwahaniaeth rhwng “staff” a “staff sy’n fyfyrwyr” yn y ddogfen hon yn bodoli er mwyn darparu canllawiau ar faterion lle bo gwrthdaro rhwng blaenoriaethau. Mewn achos o ansicrwydd ynglŷn a statws aelod staff unigol, gofynnir am arweiniad gan y Prif Weithredwr.

19.4 Rolau a Chyfrifoldebau

19.4.1 Mae Swyddogion Etholedig yn darparu arweinyddiaeth wleidyddol i’r sefydliad, gan ddiffinio polisi gwleidyddol drwy ddulliau democrataidd. Maent yn cynrychioli aelodau’r Undeb ac yn gweithio’n agos gyda’r staff i sicrhau bod gweithrediadau’r Undeb, yn arbennig y rhai sydd o fewn portffolio Swyddog, yn darparu ar gyfer, ac yn ymatebol i, anghenion yr aelodau.

19.4.2 Bydd Tîm Rheoli Strategol yr Undeb yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod cyfeiriad y sefydliad yn cael ei lywio a’i ddylanwadu gan agendâu gwleidyddol y Swyddogion Etholedig.

19.4.3 Mewn nifer o achosion, bydd Swyddogion Etholedig, yn rhai llawn amser a rhan amser, yn gweithio’n agos gydag aelodau staff. Disgwylir i’r naill a’r llall fuddsoddi amser ac ymdrech i sicrhau y caiff perthnasoedd gweithio cynhyrchiol ac effeithiol eu datblygu. Yn gyffredinol, fodd bynnag, mae gwaith staff i gael ei gyfarwyddo gan y strwythur rheoli, a dylai effaith Swyddogion Etholedig ar waith dydd-i-ddydd staff fod yn gyfyngedig i ddatblygu polisi gwleidyddol, trafodaethau o fewn Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a thrafodaethau gydag uwch reolwyr sy’n aelodau o’r Tîm Rheoli Strategol.

19.4.4 Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ydy’r unig grŵp neu bwyllgor sy’n cynnwys aelodau sy’n fyfyrwyr sydd â phwerau i drafod materion staff mewn perthynas â recriwtio, penodi, tâl, perfformiad a thelerau ac amodau staff.

19.4.5 Dylai Swyddogion Etholedig yr Undeb sicrhau’n rhagweithiol na chynhelir trafodaethau yn ymwneud ag aelodau staff unigol, ymddygiad, recriwtio na thelerau ac amodau mewn cyfarfodydd Undeb anffurfiol neu rai ffurfiol, nac:

- Ar gyfryngau’r Brifysgol neu rai allanol;
- Ar fforymau ar-lein, gwefannau neu gyfryngau cymdeithasol;
- Mewn cyfarfodydd Undeb ffurfiol neu anffurfiol; nac
- Mewn cyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol gyda myfyrwyr, staff neu randdeiliaid eraill yr Undeb.

19.4.6 Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo eu cyfrifoldeb dros sicrhau etholiadau teg i Swyddog Canlyniadau a Dirprwy Swyddogion Canlyniadau a enwebir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Caiff yr holl swyddogaethau gweinyddol cysylltiedig, gan gynnwys penodi aelodau staff, eu dirprwyo, er mwyn peidio â thanseilio hawl yr Ymddiriedolwyr Sabothol a'r Myfyrwyr sy'n Ymddiriedolwyr i chwarae rhan weithredol yn agweddau gwleidyddol unrhyw broses etholiadol.

19.4.7 Disgwylir i staff a Swyddogion Etholedig feithrin perthnasoedd gweithio effeithiol, ond dylid osgoi perthnasoedd o natur garwriaethol rhwng staff a Swyddogion Etholedig. Pan fydd perthynas o'r fath yn datblygu, dylid ei datgelu i'r Prif Weithredwr er mwyn diogelu pawb sy'n gysylltiedig rhag cyhuddiadau neu ganfyddiadau mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau. Lle bo'n briodol, gellir gofyn i'r unigolion gwblhau 'Datganiad Buddiannau'.

19.5 Rôl staff

19.5.1 Disgwylir i staff ddarparu cyngor proffesiynol i'r Swyddogion Etholedig yn eu meysydd arbenigol, ond ni chânt geisio dylanwadu'n amhriodol ar benderfyniadau polisi gwleidyddol neu safbwyntiau polisi gwleidyddol Swyddogion Etholedig.

19.5.2 Ni chaiff staff geisio dylanwadu'n amhriodol ar neu holi Swyddogion Etholedig, nac unrhyw Ymddiriedolwyr eraill, ynglŷn â materion staffio unigol neu unrhyw fusnes sydd wedi'i neilltuo i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

19.5.3 Ni chaiff staff gymryd rhan yn, na cheisio dylanwadu ar brosesau democrataidd yr Undeb.

19.5.4 Ni ddylai staff wneud sylwadau ynglŷn ag ymddygiad neu berfformiad Swyddogion Etholedig, na pholisi gwleidyddol neu gyfeiriad gwleidyddol yr Undeb, gan gynnwys:

- Ar gyfryngau'r Brifysgol neu rai allanol;
- Ar fforymau ar-lein, gwefannau neu gyfryngau cymdeithasol;
- Mewn cyfarfodydd Undeb ffurfiol ac anffurfiol;
- Mewn cyfarfodydd ffurfiol neu anffurfiol gyda myfyrwyr, staff a rhanddeiliaid eraill yr Undeb

19.5.5 Ni ddylai staff ymgymryd â thrafodaeth gydag aelodau'r Undeb ynglŷn a pherfformiad Swyddogion Etholedig.

19.5.6 Oni bai eu bod wedi'u diffinio'n "staff sy'n fyfyrwyr", bydd y cyfrifoldebau a'r cyfyngiadau a osodir ar aelodau staff yn drech na breintiau aelodaeth o'r Undeb.

19.5.6.1 Yn ymarferol, ni all aelodau staff:

- Gymryd rhan mewn cyfarfodydd democrataidd;
- ymgeisio na phleidleisio yn unrhyw rai o etholiadau'r Undeb.

19.5.7 Bydd staff sy'n fyfyrwyr yn mwynhau hawliau a breintiau aelodaeth o'r Undeb yn llawn, ac eithrio unrhyw gyfyngiadau a osodir arnynt tra byddant ar ddyletswydd. Yn benodol:

19.5.7.1

- Ni all staff sy'n fyfyrwyr ymgychu ar fater nac mewn etholiad tra byddant ar ddyletswydd;
- Mae pwyntiau 19.5.1 i 19.5.5 uchod yn berthnasol i staff sy'n fyfyrwyr tra byddant ar ddyletswydd neu'n gweithredu fe aelod o staff.

19.6 Cwynion yn erbyn staff

19.6.1 Dylai unrhyw aelod o'r Undeb sydd ag achos i gwyno ar fater sy'n ymwneud ag unrhyw aelod unigol neu grŵp o staff godi'r mater gydag Ymddiriedolwr.

19.6.2 Bydd y gŵyn yn cael ei chodi gan yr Ymddiriedolwr gyda'r Prif Weithredwr neu'r Dirprwy Brif Weithredwr. Bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r gŵyn a bydd yr Ymddiriedolwr yn rhoi gwybod i'r myfyriwr am ganlyniad yr ymchwiliad.

19.6.3 Gall ymddiriedolwr sydd ag achos i gwyno ar fater sy'n ymwneud ag unrhyw aelod unigol neu grŵp o staff godi'r mater, yn y lle cyntaf, gyda'r Prif Weithredwr. Os yw'r gŵyn ynglŷn â'r Prif Weithredwr, neu os na chaiff y mater ei ddatrys yn foddhaol gan y Prif Weithredwr, yna dylai'r mater gael ei godi ym Mwrdd yr Ymddiriedolwyr.

19.6.4 Os oes angen cymryd camau pellach, dilyniir polisi priodol yr Undeb, e.e. Disgyblu, Cwynion Cyflogaeth neu Alluogrwydd.

19.7 Cwynion yn erbyn Swyddogion Etholedig

19.7.1 Ymdrinnir â chwynion am Swyddogion Etholedig gan fyfyrwyr yn unol â'r Weithdrefn Cwynion.

19.7.2 Dylai cwynion am Swyddogion Etholedig gan aelodau staff gael eu hadrodd i reolwr llinell yr aelod staff yn y man cyntaf. Pan nad oes modd datrys y mater yn anffurfiol neu pan fydd o natur mwy difrifol, dylid adrodd amdano i'r Prif Weithredwr ac fel arfer, ymdrinnir â'r mater dan y Weithdrefn Cwynion Cyflogaeth.

20. Is-Bwyllgorau'r Bwrdd

20.1 Tîm Arweinyddiaeth

20.1.1 Aelodaeth y Tîm Arweinyddiaeth fydd:

- (a) Y Llywydd (Cyd-Gadeirydd); a
- (b) Hyd at chwe Ymddiriedolwr Sabothol; a
- (c) Y Prif Weithredwr (Cyd-Gadeirydd); a
- (d) Hyd at chwech o reolwyr strategol yr Undeb, ar yr amod bod nifer fwy o Ymddiriedolwyr Sabothol nag o uwch reolwyr yn aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth.

20.1.2 Cyfarfodydd

- (a) Byddant yn cael eu cynnal o leiaf chwe gwaith y flwyddyn.
- (b) Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd deg a rhaid i hynny gynnwys o leiaf pum Ymddiriedolwr Sabothol.

20.1.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- (a) mabwysiadu, cytuno ac adolygu polisiau a gweithdrefnau gweithredu'r Undeb;
- (b) Cydlynu amcanion gweithredol â chynllun gweithredol yr Undeb;
- (c) Derbyn adroddiadau ar gyllideb yr Undeb yn unol â chynllun ariannol yr Undeb a gweithredoedd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr;
- (d) Derbyn adroddiadau gan Ymddiriedolwyr Sabothol ynglŷn â chynnydd yr Undeb o safbwynt ei gynlluniau ymgyrchu cynrychioladol;
- (e) Derbyn adroddiadau gan y Tîm Rheoli Strategol ynglŷn â chynnydd yr Undeb mewn perthynas â'i gynllun gweithredu;
- (f) Ystyried gweithredoedd a phenderfyniadau Cyngor y Myfyrwyr, Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Myfyrwyr sy'n Aelodau a fforymau democrataidd eraill.

20.2 Pwyllgor Cyllid ac Archwilio

20.2.1 Caiff aelodaeth y Pwyllgor Cyllid ac Archwilio ei benderfynu o dro i dro gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

20.2.2 Cyfarfodydd

- (a) Byddant yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.
- (b) Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd o leiaf 50% o aelodau'r Pwyllgor.

20.2.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- (a) Cyflawni'r dyletswyddau ac ymarfer y pwerau a ddirprwyir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr o dro i dro;
- (b) Monitro rheolaeth, datblygiad a gwasanaethau ariannol yn unol â'r polisiau, gweithdrefnau a rheoliadau ariannol;
- (c) Derbyn adroddiadau gan archwilwyr mewnol ac allanol;
- (d) Penodi archwilydd allanol gan sicrhau bod y penodiadau hyn yn destun tendr bob pum mlynedd; ac
- (e) Adolygu systemau, polisiau a gweithdrefnau ariannol.

20.3 Pwyllgor Iechyd, Yr Amgylchedd, Cynnal a Chadw a Diogelwch

20.3.1 Caiff aelodaeth y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Chynnal a Chadw ei benderfynu o dro i dro gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

20.3.2 Cyfarfodydd

- (a) Byddant yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.
- (b) Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd o leiaf 50% o aelodau'r Pwyllgor.

20.3.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- (a) Cyflawni'r dyletswyddau ac ymarfer y pwerau a ddirprwyir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr o dro i dro;
- (b) Monitro rheolaeth, iechyd, diogelwch a chynnal a chadw yn unol â pholisïau, gweithdrefnau a rheoliadau'r Undeb;
- (c) Adolygu systemau, polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch;
- (d) Ystyried, ac adolygu'n rheolaidd, unrhyw waith adeiladu y gall fod ei angen er mwyn cydymffurfio ag arferion iechyd, diogelwch a lles da.

20.4 Pwyllgor Penodiadau a Thâl

20.4.1 Caiff aelodaeth y Pwyllgor Penodiadau a Thâl ei benderfynu o dro i dro gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

20.4.2 Cyfarfodydd

- (a) Byddant yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.
- (b) Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd o leiaf 50% o aelodau'r Pwyllgor.

20.4.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- (a) Cyflawni'r dyletswyddau ac ymarfer y pwerau a ddirprwyir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr o dro i dro;
- (b) Canfod ac argymhell penodi Ymddiriedolwyr Allanol a rhai sy'n Fyfyrrwyr i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr;
- (c) Pennu tâl yr Ymddiriedolwyr Sabothol a'r Prif Weithredwr.

20.5 Pwyllgor Adnoddau Dynol

20.5.1 Caiff aelodaeth y Pwyllgor Adnoddau Dynol ei benderfynu o dro i dro gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

20.5.2 Cyfarfodydd

- (a) Byddant yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.
- (b) Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd o leiaf 50% o aelodau'r Pwyllgor.

20.5.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- (a) Cyflawni'r dyletswyddau ac ymarfer y pwerau a ddirprwyir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr o dro i dro;
- (b) Monitro rheolaeth adnoddau dynol a goruchwyllo datblygiad polisïau, gweithdrefnau a rheoliadau adnoddau dynol;
- (c) Sicrhau'r arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol a chydymffurfio â chyfraith cyflogaeth;
- (d) Monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rôl yr Undeb fel cyflogwr;
- (e) Gosod amcanion adnoddau dynol; a
- (f) Cymeradwyo codiadau parhaol mewn nifer swyddi.

20.6 Grŵp Arfarnu'r Prif Weithredwr

20.6.1 Caiff aelodaeth Grŵp Arfarnu'r Prif Weithredwr ei benderfynu o dro i dro gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

20.6.2 Cyfarfodydd

- (a) Byddant yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.
- (b) Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd o leiaf 50% o aelodau'r Grŵp.

20.6.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- (a) Arfarnu gwaith y Prif Weithredwr;
- (b) Cytuno ar amcanion y tu hwnt i'r rhai a osodwyd o fewn y cerdyn sgorio cytbwys sefydliadol;
- (c) Cytuno ar gynlluniau datblygu personol ar gyfer y Prif Weithredwr;
- (d) Monitro perfformiad yn ôl y cerdyn sgorio cytbwys sefydliadol a chynlluniau datblygu personol; a
- (e) Cytuno ar y trefniadau domestig ar gyfer prosesau AD dydd-i-ddydd sy'n gysylltiedig â'r Prif Weithredwr.

20.7 Pwyllgor Boddhad, Ymgysylltu a Chyfranogi

20.7.1 Caiff aelodaeth y Pwyllgor Boddhad, Ymgysylltu a Chyfranogi ei benderfynu o dro i dro gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

20.7.2 Cyfarfodydd

- (a) Byddant yn cael eu cynnal o leiaf unwaith y flwyddyn.
- (b) Y cworwm ar gyfer y cyfarfod fydd o leiaf 50% o aelodau'r Pwyllgor.

20.7.3 Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

- (a) Cyflawni'r dyletswyddau ac ymarfer y pwerau a ddirprwyir gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr o dro i dro;
- (b) Monitro ac adolygu data boddhad, ymgysylltu a chyfranogi blynyddol ar gyfer gweithgareddau myfyrwyr, lles myfyrwyr, llais y myfyrwyr a datblygiad myfyrwyr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu canfyddiadau a'r cynlluniau gweithredu cysylltiedig sy'n deillio o ddata arolygon mewnol ac allanol;
- (c) Gosod, diddymu ac adolygu polisi sy'n ymwneud â grwpiau gweithgareddau myfyrwyr;
- (d) Adolygu telerau aelodaeth a'r ffioedd cysylltiedig ar gyfer yr Undeb Athletau a'r Urdd Cymdeithasau yn flynyddol;
- (e) Monitro ac adolygu'r berthynas gyda Cyfryngau Myfyrwyr;
- (f) Derbyn yr adroddiad blynyddol a'r cynllun strategol ar gyfer Gwirfoddoli Caerdydd;
- (g) Derbyn adroddiadau amserol ar weithgareddau democrataidd, megis y cylch etholiadol;

Hanes Diweddarau Is-Ddeddfau

Diwygiad(au) i Is-Ddeddfau

2016/ 2017:

Dyddiadau Cymeradwyo Senedd y Myfyrwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Is-Ddeddfau 1, 3-4, 6-16, 18

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 21^{ain} Tachwedd 2016 a'r Ymddiriedolwyr ar 5^{ed} Rhagfyr 2016

Is-Ddeddf 2

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 18^{fed} Chwefror 2010 a'r Ymddiriedolwyr ar 27^{ain} Gorffennaf 2010

Is-Ddeddf 5

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 28^{ain} Mawrth 2017 a'r Ymddiriedolwyr ar 30^{ain} Mawrth 2017

Is-Ddeddfau 17, 19

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 28^{ain} Ebrill 2015 a'r Ymddiriedolwyr ar 17^{eg} Rhagfyr 2015

Is-Ddeddf 20

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 2^{il} Mai 2017 a'r Ymddiriedolwyr ar 29^{ain} Mehefin 2017

2017/ 2018:

Dyddiadau Cymeradwyo Senedd y Myfyrwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Is-Ddeddf 15

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 14 Tachwedd 2017 a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 14 Rhagfyr 2017

Is-Ddeddf 14

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 05 Rhagfyr 2017 a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 14 Rhagfyr 2017

Yr holl Is-Ddeddfau
(Ac eithrio Is-Ddeddfau 8, 17 ac 18)

Cymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 23 Mawrth 2018 a Senedd y Myfyrwyr ar 24 Ebrill 2018

Is-Ddeddfau 4, 5, 6

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 15 Mai 2018 a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 28 Mehefin 2018

2018/ 2019:

Dyddiadau Cymeradwyo Senedd y Myfyrwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Is-Ddeddf 4

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 14 Mai 2019 a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 27 Mehefin 2019

Is-Ddeddf 5	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 14 Mai 2019 a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 27 Mehefin 2019
Is-Ddeddf 12	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 14 Mai 2019 a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 27 Mehefin 2019
Is-Ddeddf 14	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 14 Mai 2019 a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 27 Mehefin 2019

2019/ 2020:

Dyddiadau Cymeradwyo Senedd y Myfyrwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Is-Ddeddf 4.8	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 22 ^{ain} Ebrill 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 24 ^{ain} Mehefin 2020
Is-Ddeddf 5.9.2	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 22 ^{ain} Ebrill 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 24 ^{ain} Mehefin 2020
Is-Ddeddf 6.2.2	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 22 ^{ain} Ebrill 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 24 ^{ain} Mehefin 2020
Is-Ddeddf 6.2.3a	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 22 ^{ain} Ebrill 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 24 ^{ain} Mehefin 2020
Is-Ddeddf 6.2.3c	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 22 ^{ain} Ebrill 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 24 ^{ain} Mehefin 2020
Is-Ddeddf 7.4	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 22 ^{ain} Ebrill 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 24 ^{ain} Mehefin 2020
Is-Ddeddf 16.1	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 22 ^{ain} Ebrill 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 24 ^{ain} Mehefin 2020

2020/ 2021:

Dyddiadau Cymeradwyo Senedd y Myfyrwyr a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Is-Ddeddfau 5.3 a 5.4	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 17 ^{eg} Tachwedd 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 28 ^{ain} Mehefin 2021
Is-Ddeddf 6.1.4	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 17 ^{eg} Tachwedd 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 28 ^{ain} Mehefin 2021
Is-Ddeddfau 8.4, 8.5 ac 8.6	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 15 ^{fed} Rhagfyr 2020 a'r Ymddiriedolwyr ar 28 ^{ain} Mehefin 2021
Is-Ddeddfau 6.1.1 a 6.5.1.	Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 2 ^{il} Chwefror 2021 a'r Ymddiriedolwyr ar 28 ^{ain} Mehefin 2021

Is-Ddeddf 5.7 (Diddymu)

Cymeradwywyd gan Senedd y Myfyrwyr ar 2^{il} Chwefror
2021 a'r Ymddiriedolwyr ar 28^{ain} Mehefin 2021.